Dyletswyddau Cyffredinol Tiwtor Cymraeg

Mae bod yn Diwtor Cymraeg yn swydd gyffrous ac mae'r dyletswyddau yn amrywiol. Isod, wele restr o rai o'r prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau, i roi blas i chi o'r gwaith!

- Addysgu dosbarth(iadau) Cymraeg o'r safon uchaf;
- Addysgu Cymraeg i ddysgwyr ar wahanol lefelau (Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch, Hyfedredd);
- Dilyn amserlen o wersi, yn ogystal â bod yn barod i gynnal gwersi ychwanegol fel bo'r angen (e.e. Sadwrn Siarad, Cwrs Adolygu);
- Cynllunio a gwerthuso pob gwers yn ysgrifenedig, yn unol â chanllawiau'r Darparwr;
- Defnyddio'r cwrs lyfrau cenedlaethol, gan gynnwys adnoddau ar-lein;
- Paratoi deunyddiau dysgu fel bo'r angen;
- Adolygu a gwerthuso datblygiad pob dysgwyr, rhoi adborth adeiladol ac arweiniad i annog dysgu, gwella ansawdd y profiad dysgu i'r dysgwr ac annog dysgwyr i adolygu eu cynnydd yn rheolaidd;
- Marcio gwaith dysgwyr gan ddilyn canllawiau'r Darparwr;
- Paratoi dysgwyr i sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion, CBAC;
- Cwrdd ag anghenion y dysgwyr, gan ddarparu arweiniad addysgol, cymorth a chyngor i'r dysgwyr;
- Bod yn bresennol yn y dosbarth cyn amser dechrau'r wers, a gadael o fewn amser rhesymol i ddiwedd y wers;
- Mynychu cyfarfodydd a hyfforddiant tiwtoriaid Cymraeg yn rheolaidd a hyfforddiant staff, yn ôl y galw;
- Monitro a gwerthuso sesiynau dysgu a chymryd rhan mewn arsylwadau dysgu;
- Cynorthwyo i recriwtio dysgwyr wrth farchnata cyrsiau, a sicrhau bod pob dysgwyr yn derbyn gwybodaeth am gyfleoedd ychwanegol i ddysgu (e.e. cyrsiau atodol, dysgu anffurfiol, ac arholiadau lle bo'n briodol);
- Cefnogi cydweithwyr a chefnogi datblygiad gwaith tîm adrannau'r Darparwr fel bo'r galw;
- Cwrdd â gofynion gweinyddol maes Dysgu Cymraeg.